

SWYDDOG MAES MORGANNWG-GWENT CYMDEITHAS YR IAITH GYMRAEG (ail hysbysebu)

Mae Cymdeithas yr Iaith Gymraeg yn chwilio am unigolyn brwdfrydig, gweithgar a threfnus fydd yn gyfrifol am ysbrydoli a hwyluso gweithgaredd gwirfoddol, annibynnol gan gelloedd a rhanbarthau, gan sicrhau bod y frwydr dros gryfhau'r Gymraeg yn digwydd yn y de.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gweithio gyda'r nod o dynnu aelodau i mewn i'n hymgyrchoedd ac yn cynorthwyo swyddogion eraill i gyflawni'r nod hwn. Bydd yn gyfrifol am hybu ymgyrchoedd lleol y Gymdeithas, lledaenu ein neges a chynyddu aelodaeth ar hyd y rhanbarth, gan annog aelodau i sefydlu a chynorthwyo celloedd lleol a grwpiau ymgyrch, gan gynnwys ysgolion a phrifysgolion.

Byddwch yn gweithio am gyfnod o ddwy flynedd o dan arweiniad Cadeirydd y Rhanbarth a'r Swyddog Cyfathrebu a Chyswllt y Cynulliad Cenedlaethol, gyda golwg ar ymestyn y cytundeb maes o law yn ddibynnol ar y sefyllfa ariannol. Bydd cyfnod prawf o chwe mis.

Y cyflog llawn amser fydd £20,500 y flwyddyn gyda chyfraniad ychwanegol gwerth 5% o'r cyflog ar gyfer cynllun pensiwn. Byddwn yn rhoi ystyriaeth gyfartal i geisiadau i weithio'n rhan amser neu'n llawn amser (37.5 awr yr wythnos). Disgwylir y bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gweithio oriau hyblyg gan y bydd rhai cyfarfodydd a digwyddiadau gyda'r nos ac ar benwythnosau.

Lleolir y swydd yn swyddfa'r Gymdeithas yng Nghaerdydd.

Er mwyn gwneud cais, anfonwch lythyr a CV cyfredol at:

post@cymdeithas.cymru; neu Swyddfa Cymdeithas yr Iaith Gymraeg, Ystafell 5, Y Cambria, Rhodfa'r Môr, Aberystwyth, SY23 2AZ

Dyddiad cau: Dydd Gwener, 6 Ionawr 2017

Am ragor o wybodaeth, ffoniwch 02920 486469 neu 01970 624501

Mae Cymdeithas yr Iaith Gymraeg yn gwerthfawrogi amrywiaeth ac rydym yn ymrwymedig at gydraddoldeb fel mudiad a chyflogwr. Rydym yn awyddus i ddenu

ymgeiswyr o wahanol gefndiroedd a chaiff pob cais ei asesu'n deg. Byddwn yn agored i geisiadau i weithio oriau hyblyg neu i rannu swydd.

SWYDD-DDISGRIFIAD

Mae llwyddiant ymgyrchoedd cenedlaethol Cymdeithas yr Iaith Gymraeg yn dibynnu ar weithgaredd ein haelodau ym mhob rhan o Gymru. Byddwch yn gyfrifol am ysbrydoli a hwyluso gweithgaredd gwirfoddol, annibynnol gan gelloedd a'r rhanbarth, gan sicrhau bod y frwydr dros ddyfodol y Gymraeg yn digwydd yn rhanbarth Morgannwg-Gwent, sy'n cynnwys 12 sir, o Abertawe yn y Gorllewin i Sir Fynwy yn y Dwyrain.

Mae'r hyn sy'n digwydd mewn un rhanbarth yn effeithio ar Gymru gyfan. Byddwch yn gyfrifol am hybu ymgyrchoedd lleol y Gymdeithas, gan sicrhau sylw'r wasg ranbarthol, a chenedlaethol, mewn cydweithrediad â'r swyddog cyfathrebu. Byddwch chi'n gyfrifol am ledaenu ein neges a chynyddu aelodaeth ar hyd y rhanbarth, gan annog aelodau i sefydlu a chynorthwyo celloedd lleol a grwpiau ymgyrch, gan gynnwys ysgolion a phrifysgolion.

Byddwch yn gyfrifol am dynnu ein haelodau lleol a'n cefnogwyr i mewn i ymgyrchoedd cenedlaethol mewn cydgysylltiad gyda'r Swyddog Cyfathrebu, ac am eu rhoi ar waith mewn ymgyrchoedd lleol.

GOFYNION

- Unigolyn brwdfrydig, gweithgar a threfnus;
- Mae gallu gyrru, trwydded yrru ddilys, a defnydd car yn angenrheidiol ar gyfer y swydd hon;
- Diddordeb byw ym mharhad yr iaith Gymraeg yn benodol, a gwybodaeth eang o faterion gwleidyddol yng Nghymru;
- Llythrennedd cyfrifiadurol da;
- Y gallu i gyfathrebu yn effeithiol gydag aelodau, y cyhoedd a'r wasg, ac i ysbrydoli gweithgaredd ar lefel unigol, cell a rhanbarth;
- Y gallu a'r parodrwydd i weithio ar ei liwt ei hunan ac i gydlyn gweithgaredd Cymdeithas yr Iaith yn y rhanbarth, gan gynnwys gwaith cyfathrebu, lloïo ac ymgyrchu uniongyrchol;

- Parodrwydd i weithio a chydweithio mewn tîm o swyddogion maes eraill ar draws Cymru.

CYFRIFOLDEBAU MANWL

- Datblygu trefniadaeth leol y Gymdeithas ar lefel celloedd a rhanbarth;
- Hybu ymgyrchoedd canolog y Gymdeithas ar y lefel leol;
- Hybu ymgyrchoedd rhanbarthol y Gymdeithas (e.e. mewn perthynas ag Awdurdod Lleol penodol);
- Cynyddu aelodaeth a gweithgarwch y Gymdeithas yn yr ardal;
- Codi arian;
- Datblygu perthynas gyda mudiadau eraill er mwyn y Gymraeg;
- Cydlynw a chynnal digwyddiadau, megis gweithdai, a chydweithio gyda gwirfoddolwyr, er mwyn i aelodau a chefnogwyr allu rhannu sgiliau ymgyrchu a'u huwchraddio gyda'r nod o sicrhau bod strwythurau a gallu ymgyrchu'r Gymdeithas yn fwy cynaliadwy ac nad ydynt yn dibynnu ar swyddogion cyflogedig;
- Trefnu cyfarfodydd, digwyddiadau, ralïau ayb;
- Unrhyw anghenion rhesymol eraill gan Senedd y Gymdeithas.

OS YW'R GYMRAEG I FYW RHAI D I BOPETH NEWID!

cymdeithas.cymru

@cymdeithas

facebook.com/cymdeithas

Mae Cymdeithas yr Iaith Gymraeg yn gwerthfawrogi amrywiaeth ac rydym yn ymrwymedig at gydraddoldeb fel mudiad a chyflogwr. Rydym yn awyddus i ddenu ymgeiswyr o wahanol gefndiroedd a chaiff pob cais ei asesu'n deg. Byddwn yn agored i geisiadau i weithio oriau hyblyg neu i rannu swydd.